



Llais y Llan Chwefror 2020

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 28th Mawrth 2020

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

Isafbris am alcohol:
2 Mawrth 2020

**Minimum price
for alcohol: 2 March 2020**

Mae yfed llawer iawn o alcohol cryfder uchel yn niweidiol i'ch iechyd.

Drinking high volumes of high strength alcohol is harmful to your health.

Mae'r gyfraith yn newid yng Nghymru a byddwch yn sylwi ar gynnydd ym mhpris rhai ddiodydd.

The law is changing in Wales and you will notice an increase in the price of some drinks.

Oa ydych chi'n poeni am faint o alcohol rydych chi'n ei yfed: ffonwch neu tekstiwch y llinell gynorthwng am ddim i gael gwybodaeth, cyngor neu gwnsela.

If you worry about the amount of alcohol you drink: Call or text the free helpline for information, advice or counselling.

0808 808 2234
neu tectiwch DAN ar/or text DAN to 81066
www.dan247.org.uk



Ronwydd Fronfras



Sion Corn wedi cyrraedd Ffair Nadolig ysgol



Sion Corn yn croesawu rhagor o ymwelwyr



“..O liliwen fach o ble daethost ti...”



Hyfrydwch y cyclamen coum bychain



Caniau salw ar y cloddiau



Y gynulleidfa yng ngwasanaeth y Lladdfa



Cynorthwywyr coginio cinio – Hospis Skanda Vale

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa

Cylch y Pentref Dydd Mawrth Yn yr Eglwys 2.00 – 3.30

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd (o Fedi 12)

Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr

Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa

Ail fore Mercher 10.30 Tennis Bwrdd Neuadd Goffa Llanpumsaint

Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog

Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd

Chwefror 18 Nos Fawrth Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd

Chwefror 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 23 Dydd Sul 11.00 Taith y Bewisg Galed Gerddi Botaneg

Chwefror 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 23 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook

Chwefror 24 Dydd Llun 2.00 Clwb gwili 60+ Neuadd Bronwydd

Chwefror 25 Dydd Mawrth 11.00 Taith y Bewisg Galed Gerddi Botaneg

Chwefror 26 Dydd Mercher y Llundw – Cymundeb y Llundw Llanpumsaint

Chwefror 27 Nos Iau 6.00 Gwesty'r Warren Caerfyrddin – Pryd y Grawys Tocyn £20 wrth Gaynor.

Chwefror 29 Dydd Sadwrn 8.00 – 12.00 Amnest Gwastraff Maes Parciau Mart Castell Newydd Emlyn

Chwefror 29 Dydd Sadwrn 10.30 CCB Cymdeithas Rhandiroedd

Mawrth 4 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 7 – 14 Wythnos Cymhennu a Phigo Sbwriel – Carolyn 01267 253308

Mawrth 7 Dydd Sadwrn Eglwys Eco Agored 10.30yb – 1.30yp

Mawrth 8 Dydd Sul 10.00 Cyngerdd Gwyl Dewi Cylch Meithrin Bronwydd, Neuadd Bronwydd

Mawrth 9 Nos Llun 7.30 CCB Llanpumsaint Community Information Exchange Neuadd Goffa

Mawrth 11 Nos Fercher 7.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilfordd 01267 253643

Mawrth 14 Sadwrn 10.00- 12.00 Marchnad Agored Llanllawddog –prynhawn Sesiwn Eglwysig yn y goedwig

Mawrth 17 Nos Fawrth 7.00 Llyfrau Llafar Cymru Y Pafiliwn Pencader

Mawrth 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd

Mawrth 18 Dydd Fercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mawrth 18 Nos Fercher 7.00 Llyfrau Llafar Cymru Neuadd Goffa Llanpumsaint

Mawrth 19 Nos Iau 7.00 Llyfrau Llafar Cymru Neuadd Llanllwni

Mawrth 20 Nos Wener Noson 'Welsh Whisperer' Neuadd Goffa Llanpumsaint

Mawrth 21 Dydd Sadwrn 10.00 – 4.00 Fair Gwanwyn Hospis Skanda Vale

Mawrth 22 Dydd Sul 1.45 CCB Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mawrth 23 Dydd Llun 2.00 Clwb gwili 60+ Neuadd Bronwydd

Mawrth 29 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook

Mawrth 31 Nos Fawrth Y pryd o Fwyd Elusennol Tafarn y Rheilfordd

Ebrill 8 Nos Fercher 7.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilfordd 01267 253643

Ebrill 19 Dydd Sul 10.30 Rhandir Glanhau

Ebrill 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd

Ebrill 22 Nos Fercher Bingo Neuadd Goffa Llanpumsaint

Ebrill 26 dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Ebrill 26 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook

Ebrill 27 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 27 Nos Llun 8.00 CCB Pwyllgor Lles a Hamdden Llanpumsaint Neuadd Goffa Llanpumsaint

Mehefin 7 Dydd Sul Fferm Agored

Mehefin 19 Nos Wener Helfa Drysor I Geir

I logi'r Neuadd Llanpumsaint, Ffoniwch 07944793133

Sul Fferm Agored – 7fed o Fehefin.

Mae Sul Fferm Agored yn fudiad cenedlaethol pan fydd ffermwyr yn croesawi'r cyhoedd i ymweld â'u ffermydd. Mae dwy o ffermydd Llanpumsaint yn rhan o'r cynllun ar y 7fed o Fehefin eleni, sef Esgair a Hafod. Daw mwy o fanylion yn nes ymlaen ond am nawr gwnewch nodyn o'r dyddiad. Bydd yn bosib ymweld â'r ddwy ar yr un diwrnod.

Cewch fanylion pellach yn y rhifyn nesa' o Lais y Llan neu ewch i www.farmsunday.org i ganfod beth sy'n digwydd fan hyn ac yng ngweddill y wlad.

Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyfnewidfa Gwybodaeth Llanpumsaint

7.30yh 9fed Mawrth - Neuadd Goffa. - Bydd y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gyhoeddi Llais y Llan a chynnal i Wefan www.llanpumsaint.org <<http://www.llanpumsaint.org>> yn cyfarfod ar y dyddiad uchod. Croeso i bawb fod yn bresennol! Byddem yn ddiolchgar am gymorth i gyhoeddi a dosbarthu'r Llais a hefyd i gynnal y Wefan yn gyfoes. Cewch fwy o wybodaeth oddi wrth Carolyn Smethurst 01267 253308.

Wythnos Cymhennu a Phigo Sbwriel - Sadwrn 7fed Mawrth - Sadwrn 14eg Mawrth.

Trefnwyd y gweithgaredd unwaith eto'r flwyddyn yma, ond y tro hwn gallwch ddewis eich diwrnod i fynd ati i lanhau ochrau ein heolydd a'n cloddiau.

Bydd gennyf ffyn pigo, offer i ddal y bagiau, rhai coch, a hefyd gyrsiau melyn diogelwch, i gyd yma yn Bodran Felyn yn barod i chi ar y diwrnod ddewiswch. Ond dewch a'ch menig eich hunan! Byddaf hefyd yn dweud wrthyich ba hewl i fynd ati. Felly os am weithio ar ryw hewl arbennig y cyntaf i'r felyn i falu pia hi! Wedyn dewch a'r offer a'r bagiau 'nol yma i Bodran Felyn, fel eu bod ar gael i'r gwirfoddolwyr nesaf. Daw'r Cyngor Sir yma ar 17eg i gasglu'r holl fagiau. Unrhyw ymholiad pellach i Carolyn Smethurst ar 01267 253308.

Dyma stori dau fu'n glanhau o Riw Graig hyd Panteg, rai wythnosau'n 'ôl.

Aethom ati i wneud ein rhan rhwng cawodydd. A ninnau'n byw mewn ardal mor hardd mae'n syndod shwd ma' bobl yn gallu bod mor anniben. Mae'n ymddangos fod yna rai yn prynu prydiau pysgod a sglodion, creision a diod yn y dre. Erbyn cyrraedd tro Graig maent wedi benni bwyta, ac yn lle mynd a'r gweddillion gartre, ffling mas trwy'r ffenest yw hi i fudreddi ein cloddiau. Diddorol oedd sylwi nad oedd yna unrhyw sbwriel o amgylch sgwâr Cnwycpistyll a'r troad am Nebo. Falle fod 'na bobl cydwybodol lleol yn clirio lan, neu falle fod y troseddwy'r yn ymwybodol i beidio taflu mewn ardaloedd poblog, er mwyn osgoi dirwy.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r unigolyn/cerddwr sy'n hongian caniau gwag a'r canghennau'r coed, mae'n rhwyddaf i'w gweld i'w casglu wedyn. Diolch byth mae'r oll gasglo'n ni oedd caniau, poteli plastig, a phacedi ffags, ac nid fel digwyddodd i'n rhagflaenydd wnaeth ganfod padell ffrio enfawr yn y clawdd. Tebyg yw'r fenter hon i'r rhai sy'n paentio pont yr afon Forth, felly mas fyddwn ni 'to yn herio'r tywydd a'r traffig. Felly ein neges - Ewch a'ch sbwriel gartre ac AILGYLCHWCH. Diolch.

Sylwais hefyd fod yr arfer o roi canir ar frigau'r coed yn lledaeni - gwelir hyn nawr ar yr heol rhwng Llanpumsaint a Bancyffordd - Carolyn

A484 - Bronwydd – Pante – Henallt.

Parhau mae'r gwaith ar y rhan yma o'r A484 rhwng Caerfyrddin a Chynwi, bellach ar ochr Bronwydd o'r Cymal cyntaf. Bu rhagor o lithriadau, ac mae'r ail Gymal maent yn gweithio arni ar hyn o bryd i'w chwblhau erbyn y 9fed o Fawrth. Wedyn gwelir gwaith ar Gymal 3 fydd yn ail osod y gwahanfur neu rwystr ar ochr Caerfyrddin o'r hewl, a hyn i derfynu erbyn Ebrill 20fed.

Y cyswllt nawr gyda'r Cyngor Sir yw Ed Rees edrees@cardiff.gov.uk

01267 224531. Y newyddion da yw bod y gwaith ychwanegol hwn wedi eu hariannu ac allan gyda'r contractwyr felly ni ddyle fod yna oedi pellach. Michael Hall.

Siop Gymunedol Llanpumsaint - Y diweddaraf

Daeth llu o bobl ynghyd i'r cyfarfod cyhoeddus i drafod y syniad o Siop Gymunedol ar y 22ain o Ionawr. I'r rhai ohonoch nad oedd yn bresennol dyma ganlyniadau Arolwg.

Daeth ymateb sylweddol 99 i'r ymholiad ac mae'r canlyniadau yn dangos cefnogaeth gadarn i'r syniad o Siop Gymunedol yn y pentref.

1 Pe bae siop yn agor yn y pentre' a fydddech chi neu eraill yn eich cartref yn ei defnyddio dwy neu dair gwaith yr wythnos (48%), unwaith yr wythnos (24%).

2 Beth fydddech debycach o'u prynu? Bara, cynnyrch lleol a phapurau dyddiol oedd y mwyaf poblogaidd.

3 Pa wasanaethau fydddech fwyaf tebygol o'u hangen? Swyddfa Bost, Caffi, taliadau cerdyn a thynnu arian parod, dyma'r eitemau ddaeth i'r brig.

4 Pa amser o'r dydd fydddech fwyaf tebygol o ddefnyddio'r siop? Daeth canlyniadau 8 y bore i hanner dydd ac o ddau'r prynhawn hyd 6 yr hwyr yn gydradd.

5 'Roedd y mwyaf yn teithio o 5 i 10 milltir am siopa wythnosol a siopa nawr ac yn y man. Prif siop 89% - 5 - 10 milltir. 7% - dros 10 milltir Siopa nawr ac yn y man 5 - 10 milltir 61% (35% dan 5 milltir o 83)

6 87% yn barnu fod Siop Gymunedol yn bwysig neu'n bwysig iawn.

Bu ymateb cryf i'r alwad am wirfoddolwyr gyda 33 unigolyn yn cynnig help llaw mewn rhyw fodd na'i gilydd.

Y Cam Nesaf

Mae Arolwg Dichonolrwydd dan nawdd Cronfa Fferm Wynt Brechfa ar droed yn barod, i edrych ar ddewisiadau posib o leoliad, gwasanaethau a nwyddau. Daw'r adroddiad i law ddiwedd Chwefror.

Gosodwyd tudalen Facebook eisoes er mwyn rhannu gwybodaeth a datblygiadau

www.facebook.com/llanpumsaintshop <<http://www.facebook.com/llanpumsaintshop>>.

Shwd gallwch chi helpi?

Mae'r criw gweithredol yn awyddus fod gan bawb gyfle i fwydo mewn i'r syniad oherwydd siop i'r holl gymuned ddyle hi fod. Felly rhwydd hynt i chi fwydo i mewn awgrymiadau a syniadau ynghyn a'r fenter.

Roxanne Treacy (Ymgynghorydd i ddichonolrwydd y fenter) roxtraecy@icloud.com 07972024945.

Gwasanaeth Coffa'r Lladdfa Eglwys Llanpumsaint

Ar ddydd Sadwrn 25ain o Ionawr daeth cynrychiolaeth o'r eglwysi a'r capeli lleol ynghyd a'r gymdeithas Fwslemiaid, rhai o gefndir Iddewig, ieuenctid, ysgolion a'r Bwrdd Iechyd lleol, i'r Eglwys wledig yma i i gofio am erchylltra'r Lladdfa a phob hil-laddiad arall.

Dyma ein trydydd gwasanaeth i gofio am y Lladdfa a phregethwyd gan y Parch Eurfyl Howells prif gaplan ein hysbytai lleol. Pwysleisiodd Eurfyl bwysigrwydd cofio, gan son am ei brofiad personol o gwrdd â rhai orosodd hil-laddiad Rwanda. Gwahoddwyd pobl i ychwanegu eu henwau, sylwadau, ymrwymiad a myfyrdod, i gadwyn bapur enfawr, i symbylu ein cefnogaeth i sefyll a chyd-weithio er mwyn erlid yr amgylchiadau wnaeth arwain at hil-laddiad yn ein byd. Goleuwyd canhwylau o gofio am ddioddefwyr y L laddfa ac erlid y Natsiaid, a'r hil-laddiadau wedyn yn Cambodia, Bosnia, Rwanda a Darfu.

Wedi'r gwasanaeth daeth cyfle i gyd-gwrdd ac ymgom dros banded.

Gaynor –Jones Higgs Offeiriad Ardal Bro Caerfyrddin.

Bowlio Dan Do Llanpumsaint a Nebo.

Bu'n ddiweddglo cadarnhaol iawn i'r hen flwyddyn gyda thair buddugoliaeth dda erbyn Llandyfaelog A, Alma a Salem (pencampwyr y Gynghrair llyne3dd), Gadawodd hyn ni yn y 5ed safle hanner ffordd dry'r tymor.

Taith i Lanboidy fu hi am gêm gynta' 2020 i wynebu gwrthwynebwyr cryf iawn a'r siom o golli. Yna cyfartal fu hi erbyn Meinciau adre yn yr ail gêm, er i'r parau a'r triawd ennill.

Enillodd Aled a Gethin Edwards eu lle fel unigolion ac yn y pedwarawd i Gystadleuaeth Genedlaethol Cymru yn Llandrindod yn Ionawr. Wedi brwydro eu ffordd i'r chwarteri colli wnaeth Aled o drwch blewyn. Aeth y pedwarawd ymhellach drwy ennill pob gem hyd at y ffeinal, ac yna colli yn y pen olaf un i Dîm cryf iawn o Sir Benfro. Gellir dod o hyd i adroddiad llawn am y penwythnos ar ein Gwefan - www.llanpumsaintsmbc.org <<http://www.llanpumsaintsmbc.org>>

Ar y 26ain o Ionawr aeth Rhys a Catrin Williams i gystadlu yn y Bencampwriaeth Parau Cymreig Dan Un ar hugain yng Nghaerfyrddin. Wynebwyd cystadleuwyr cryf iawn oedd yn cynnwys yr enillwyr o Geredigion a Brycheiniog a Maesyfed ddaeth i'r ail safle. Y nesaf fydd wynebu Lloegr Dan un ar hugain eto ym Mro Myrddin ar 28ain o Fawrth

Estynnwn groeso cynnes iawn i Dafydd Jones wrth iddo ymuno a ni, ac mae eisoes yn edrych yn addawol iawn.

Mae'r Clwb yn cyfarfod i ymarfer yn y Neuadd bob Nos Lun a Nos Iau o 7.30 hyd 9.30, hyd Fis Ebrill.

Croeso i chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed, oherwydd mae gennym hyfforddwyr profiadol wrth law i addysgu ac annog. Am wybodaeth bellach ewch at ein Cadeirydd Dereck Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474.

Clwb Gwili Chwedeg Bronwydd

Bu'n flwyddyn lewyrchus iawn gyda'r aelodaeth yn aros yn gryf, er colli rhai daeth nifer atom o'r newydd. Os am ymuno yna cysylltwch â Val Giles, yr Ysgrifenyddes, ar 01267 281194. Cynhelir ein cyfarfodydd ar y dydd Llun olaf bob mis, ond ar ddyddiadau Gŵyl y Banc byddwn yn cyfarfod wythnos ynghynt. Pob cyfarfod i gychwyn am ddau o'r gloch. Tal aelodaeth £7.50 y flwyddyn.

Eleni derbynion rodd o £875 gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Ac rydym yn ddiolchgar iawn am hynny. Ym mis Rhagfyr cawsom Daith Ddirgel yn arwain at Ginio Nadolig gyda 68 aelod yn bresennol. Bu'n ddiwrnod o fwynhad wrth i ni ymweld â Pharc Masnach Trostre am ychydig siopa cyn mynd ymlaen am y Cinio i Westy Parc Strade gydag adloniant i ddilyn.

Bu'r Pwyllgor wrthi'n ddiweddar yn cynllunio pedair taith ddyddiol am 2020, a dyma nhw!

13eg Mai - Gwersyll Carcharorion Rhyfel Henllan ac Amgueddfa Wlân Genedlaethol Drefach Felindre.

10fed Mehefin - Mordaith ar yr afon Gwy ac Abaty'r Felin

19eg Awst – Neuadd Glansevern a'r Gerddi Drenwydd.

9fed Medi - Amgueddfa Werin Genedlaethol San Ffagan.

Cyfarfodydd am y flwyddyn 2020-02-06

27ain Ionawr – Siaradwr – Jeremy John

24ain Chwefror - Cawl ac adloniant Dydd Gŵyl Dewi gan y delynores Lucy Rhian Jones.

23ain Mawrth – Siaradwr Arwyn Thomas.

27ain Ebrill – Mary Thorley

Mae yna wyliau Haf o bum diwrnod yn cael ei drefnu tuag ardal Lerpwl. Cewch y manylion oddi wrth Val Giles a Glyn Ifans ac rydym yn barod yn casglu blaendal. Wedyn ym mis Tachwedd daw'r pum diwrnod Twrci a Thinsel unwaith eto. Val Giles, Ysgrifenyddes 01267 281194

PTA Ysgol Llanpumsaint

Hoffem ddiolch i bawb am wneud ein Ffair Nadolig eleni'n llwyddiant. Rhown ddiolch arbennig i Fanc Barclays, Mr Barrett, Ashfied Solutions, Capel Nebo, Becky Dufty, Matthew Jones a Sion Corn.

Digwyddiadau - Bingo'r Pasg 22ain o Ebrill am 7yh yn y Neuadd.

Codi Arian yn haws -- Os ydych yn siopa ar y We gallwch helpi' godi arian i'r Gymdeithas drwy gofrestru yn www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta neu gysylltu ag Emma Brown. Os oes 'na rywun yn gallu

Adfer y Dirwedd Rhagluniaeth y Gerddi Botaneg - Taith y Benwisg Galed

Daeth cyfleoedd pellach i ymuno ac aelodau o'r fenter i fynd amgylch y llyn sy'n cael ei adfer. Cewch wybod mwy am dir parc hanesyddol y Bonheddwr Wiliam Pacston, ac i fod yn dyst i'r holl waith adferol sydd eisoes wedi ei wneud.

Bydd taith o ddwy awr yn cychwyn 11yb o fynedfa orllewinol y Ty Gwydr. Gwisgwch yn gadarn am eich traed oherwydd i'r dirwedd fod yn anwastad mewn manau. Cyfyng yw'r llefydd felly cysylltwch â Joanne.Evans@gardenofwales.org.uk <<mailto:Joanne.Evans@gardenofwales.org.uk>> neu 01558 667157 i wneud yn siŵr.

Dydd Sul 23ain Chwefror - 11yb hyd 1yp

Dydd Fawrth 25ain Chwefror - 11yb hyd 1yp

Gwnewch fawr o'r cyfle i gerdded yn ôl i'r gorffennol hudolus..



Y SEFYDLIAD DPJ

Rhannu'r baich i'r gymuned amaethyddol

Ffurfiwyd y Sefydliad yma i fod yn gefn i ffermwyr, gweithwyr amaethyddol a'u teuluoedd sy'n brwydro yn erbyn ieched meddwl. Dyma gyflwr tebyg iawn i afiechyd corfforol pan allwn i gyd deimlo'n anhwylyd ar adegau. Felly mae DPJ yno i gynghori a chefnogi a chefnogi ffermwyr a'u teuluoedd. Mae'r Sefydliad hefyd yn cefnogi eraill sydd mewn cysylltiad cyson a ffermwyr a'u teuluoedd yng nghefn gwlad, ar sut i estyn help llaw yn enwedig adegau o argyfwng. Er mwyn siarad ag un o'n gwirfoddolwyr profiadol ynghyn a'n gwasanaeth cynghori sydd wedi ei ariannu ffoniwch 0800 587 4262 neu anfon neges i 07860 048799 - mae'r ddau ar agor bob dydd drwy'r dydd. Hefyd mae gennym arbenigwyr ym mhob ardal i siarad am fod yn ymwybodol o ieched meddwl, ac i egluro gwaith y Sefydliad. I ni ar Facebook/ Trydar a Instagram neu www.thedpjfoundation.co.uk <<http://www.thedpjfoundation.co.uk>> neu emma@dpjfoundation.co.uk <<mailto:emma@dpjfoundation.co.uk>>

Clwb Cant Llanpumsaint – At ein holl aelodau

Daeth yn amser i adnewyddu tanysgrifiad - £12 am y deuddeg mis i gychwyn yn Fis Mawrth. Dylai eich siec gael ei gwneud mas i "Clwb Cant Llanpumsaint" ac i'm cyrraedd erbyn diwedd mis Mawrth. Neu mae arian parod yn dderbyniol hefyd.

Bydd yr holl elw i'w ddefnyddio i gynnal a chadw'r cae chwarae, lle chwarae'r plant ac i gadw'r holl gyfarpar yn ddiogel a defnyddiol. Mae gennyf 120 o rifau'n barod, a llynedd defnyddiwyd 112. Croesawir aelodau newydd ac o godi'r ffon gallaf egluro unrhyw beth. Daw llythyr i atgoffa'r aelodau presennol ynghyd ac adroddiad am wariant y flwyddyn aeth heibio.

Diolch yn fawr i'r holl aelodau am eu cefnogaeth dros y cyfnod yn y gobaith fydd hynny'n parhau.

Derick Lock Trysorydd 01267 253524 Maesyfelin, Llanpumsaint. Sa336by.

Amnest Gwastraff –

Maes Parcio Mart Castell Newydd Emlyn 20fed Chwefror - 8yb Canol dydd

Derbynnir pob math i wastraff cartref gan gynnwys amnest i deiars hefyd ee. Celfi, carpedi, matras, eitemau trydanol fel oergell, rhewgell, a setiau teledu. Gellir dod a phedair hen deiar ond nid rhai tractor neu lori. Ni dderbynnir y canlynol chwaeth - paent (ond bydd tuniau gwag yn iawn) - tiwbiau fflworoleuol, batris, cemegau, poteli nwy, asbestos, gwastraff gardd, gwastraff gwaith, gwastraff adeiladu, gwydr (ee. Paneli gwydr neu ddodrefn yn cynnwys gwydr).

Gofynnir i'r rhai sy'n dod gwahanu eu gwastraff cyn cyrraedd ac i gyflwyno prawf o'u cyfeiriad gartre er mwyn cael mynediad i'r mart.

Pwyllgor Lles a Hamdden Llanpumsaint.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn aeth heibio. Mae'r Cae Chwarae'n gaffaeliad pwysig i'r pentref, ac rydym yn gweithio'n ddyfal i'w gynnal.

Diolch i bawb wnaeth gefnogi Gorymdaith Sion Corn ac i'r llwyddiant er gwaethaf y tywydd. Diolch yn arbennig i Wayne a Liz am roi'r Blychau Dewisol Sion Corn. Ynghyd a chynnyrch y Botel ar y Bar yn y Railwe codwyd £559- 73 at gynnal y Cae Chwarae a'n Elusen ddewisol eleni, sef yr Uned Gofal Dwys Babanod yn Ysbyty Glangwili.

Yr Elusen tro nesa' fydd Yr Uned Cancr y Fron yn Ysbyty Llanelli.

Y Pryd o Fwyd Elusennol

Lasania fydd ar y fwydlen i'r pryd Elusennol yn y Railwe am £12 (£5 i blant). Fe fydd yna raffl hefyd felly bydd angen gwobrau. Tocynnau ar gael oddi wrth aelodau'r Pwyllgor Lles a Hamdden.

Helia Drysor i Geir Nos Wener 19eg Mehefin2020

Daw manylion pellach yn y rhifyn nesa' o Lais y Llan.

Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 8 o'r gloch Nos Lun Ebrill 27ain yn y Neuadd.

Y Gymdeithas Rhandiroedd

Dyma'r amser o'r flwyddyn i ni dros holl wledda'r Nadolig, ac mae'n codi calon i weld y cennin Pedr yn gwthio'u ffordd drwy'r pridd i gyhoeddi arwyddion cynta' fod y Gwanwyn ar droed.

Cyn belled â hyn gwelwn fod y gwaith a wnaed cynt wedi llwyddo i osgoi llyfogydd y gorffennol. Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol eleni ar Sadwrn 29ain o Chwefror am 10.30yb yn y Rhandir. Yno fydd aelodau presennol a'r rhai newydd yn cofrestru am y flwyddyn; £35 i'r newydd ond £25 bob tro wedyn. Am 10.30yb ar 19eg o Ebrill bydd yn fore o gymhennu a chomopo'r safle. Bydd y cyfarpar newydd brynwyd drwy haelioni Cronfa Fferm Wynt Brechfa yn ysgafnhau'r baich yn fawr.

Drwy holl saga Star Wars ni ddatgelwyd cynnwys dyddiaduron Luke Skywalker. Anodd iawn oedd hi i ddehongli ei ysgrifen coesau brain a'r cyfieithiadau anghywir o'i iaith wreiddiol, felly gwelwyd gwallau. Mae'n debyg i'w Dad Anakin fod yn arddwr brwd gyda rhandir, hyn yn hanfodol oherwydd prinder bwyd ar asteroid Polis Massa. Oherwydd y prinder offer hefyd rhaid oedd rhannu. Ysgrifennodd am ei Fam Padme Amidala yn ffarwelio a'i Dad wrth iddo ymadael am y rhandir "Y fforch fydd gyda thi!".

Os yn awyddus i ymuno a'r Gymdeithas cysylltwch â Keith253375 neu Ray 253157 am fanylion pellach.

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Sul Chwefror 23ain - Wendy Harding - cyflwyno Sêr Ddewiniaeth

Sul Mawrth 25ain – Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol – Croeso!

Sul Ebrill 25ain - Rory Macquisten - Dosbarthiad Llinellau Egni'r Ddaear

Sul Mai 24ain – Shelley Underhill Savage – Iachau drwy Sain.

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. ac am £4 cewch banded yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Ar ddiwedd mis Mawrth 2020 fe fyddwn yn teithio i ardal Brighton i gynnal cyngerdd (a mwynhau peth hefyd) ar y cýd gyda Chór Andrew Rees (cyn-aelod o'r Cór). Ac i orffen y dathlu bydd gennym Ginio'r Dathlu ddechrau mis Mehefin 2020 (dyddiad i'w gadarnhau) ym Mhantyrathro, Llangain. Mae'r digwyddiad hyn yn agored i aelodau presennol a chyn aelodau o'r Cór.

Dyma Hen Scam wedi Dychwelid

Daw llythyr yn honedig o Hong Kong, oddi wrth un o brif weithredwyr Banc mawr yn Tsieina. Scam ariannol yw e' ac ymgais i'ch twyllo fod enillion o ryw 10 miliwn o ddoleri yw gwneud. Ymddangosa fel llythyr personol ac mae nifer ohonynt wedi cyrraedd cartrefi ym Mhrydain a'r Unol daleithiau, yn esgus dod o ryw brif Fanc yn Hong Kong.

Y stori yw eu bod yn trafod ystâd ryw ddydd ariannog fu farw drwy ddamwain yn Tsieina heb ewyllys, ac os nad oes cais am y ffortiwn bydd Llywodraeth Tsieina yn cael y cwbl. Honnir i'r dyn fu farw rannu'r un cyfenw a chi, dyna'r abwyd arall i'ch denu i'r pry cop. Yn dilyn ymholiadau gan un papur newydd datgelwyd i'r cyfeiriad yn Hong Kong fod ddim mwy na ryw ystafelloedd di-nod mewn stryd gefn yn Hong Kong, ac 'r oedd y rhif ffôn hefyd yn amheus tu hwnt. Celwydd oedd y cyfeiriad E-bost. Yn ôl yr Heddlu gallai'r scam fod wedi cychwyn o Brydain neu Nigeria hyd yn oed.

Mae twyll o'r fath yna yn ffynnu ar drachwant pobl ac yna ennill eu hymddiried. Ddaw'r arian ddim oherwydd lawr yr hewl bydd angen trosglwyddo symiau mawr o arian ar gostau cyfreithiol honedig, diflannu gwna'r cwbl. Mae'n debyg fod sgamiau o'r fath yna yn costio £150 mil bob blwyddyn, felly cadwch eich dwylo'n lan

Curad Calon Llanpumsaint

Dyma'r criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfywiwr mewn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Eglwys Llanpumsaint

Ysgrifennaf hyn ar y 3dd o Ionawr gyda'r aduniadau Nadolig o hyd yn eu lle, ond ers Mis Hydref buom yn cynllunio ein cynllun gogyfer a'r Grawys. Bu yna adrefnu sylfaenol i'r Esgobaeth yn ystod y misoedd diwethaf i weld nifer o eglwysy'n uno i un Plwyf Mawr dan yr enw Ardal Offeiriadaeth Leol, hyn yn cynnwys eglwysi Caerfyrddin, Abergwili, Llangynnwr ac uned Cynwil Elfed. Mewn un ystyr mae hyn yn dipyn o her ond mae'n agor cyfleoedd, felly bydd yr eglwysi hyn i gyd yn yr AOL yn rhan o gynllun Eco'r Grawys.

Bwriad AOL Bro Caerfyrddin fydd rhedeg ymgyrch Eco Grawys i gysylltu'r pryder presennol am y newid hinsawdd gyda'r traddodiad eglwysig hanesyddol o ymprydio ac ymddwyn yn gysyngedig adeg y Grawys. Rydym yn barod i herio'r gosodiad fod Cristnogion a'r eglwys yn hawlio'r byd naturiol, ac yn datgan ein cyfrifoldeb dros fyd rhoddwyd i ni gan Dduw. Mae cynnal ac amddiffyn adnoddau'r ddaear yn gyfystyr a charu Duw a chymydog. Fel y dywed ein Swyddog Esgobaeth am Greu, Gofal a Chynnal, "... mae gan yr eglwys gyfrifoldeb i fod wrth galon ein bywyd bob dydd, ac mae'r hyn a wnawn fel Cristionogion yn dylanwadu ar gymdeithas yn gyffredinol..."

Eisoes gwnaethom gysylltu â chynghorau lleol, ysgolion, Pkant Dewi a mudiadau cymunedol megis Rhandiroedd a busnesau lleol, er mwyn hysbysebu ac ehangu'r neges Eco. Trefnwyd tri achlysur yn barod yn y gobaith y daw'r cyhoedd nad ydynt yn aelodau eglwys i ymuno a'r fenter. Pryd o fwyd Llysieuwr yn y Warren gyda sylfaenydd y lle Deri Reed yn siarad. Cyfarfod Eco Eglwys Agored, gyda chwaraeon, crefftau a lluniaeth ar themâu Gofal. Sesiwn Blasu Eglwys yn y Goedwig. Rydym yn cydnabod nad yw'r eglwys draddodiadol bob amser yn cyrraedd y cyhoedd tu fas, fod aelodau'n aml yn cynnal a gweithredu eu ffydd mewn gwahanol ffyrdd. Felly drwy gynnal ac ehangu i wahanol leoliadau gobeithiwn gysylltu â mwy o bobl. Digwyddiadau eraill ellir eu cynnal byddai dadl Ysgol Uwchradd mewn cyswllt a Maint Cymru, Gwasanaeth ysgolion cynradd, Coginio Pincws, Astudio'r Beibl, a Sioe Ffasiwn Gynaliadwy. Mae yna ddrws agored i unrhyw un o'n gwasanaethau neu ddigwyddiadau ac edrychwn ymlaen at gyd-gwrdd a gwysebau newydd wrth wasanaethu duw yn ein cymuned. Os ydych o'r farn nad yw'r eglwys yn gymwys i chi, nad yw'n berthnasol i'r byd sydd ohoni, ac nad yw'r cristion yn cael sbri, yna meddylwch eto oherwydd mae'r eglwys yn newid a'r flwyddyn 2020 yw'r amser i sylweddoli hynny.

Ceir gwybodaeth bellach am wasanaethau a digwyddiadau yn Llanpumsaint, Bronwydd a Llanllawddog ar ein tudalen Facebook. Hefyd Y Parch Gaynor 01267 253158 neu i_gaynor@hotmail.com

Llyfrau Llafar Cymru

Bydd taith Llyfrau Llafar Cymru yn Ymweld â Llanpumsaint nos Fercher, 18ed o Fawrth. Cynhelir noson yn y Neuadd i hysbysebu'r gwasanaeth pwysig hwn i bobl sydd â phroblemau gweld. Wyddech chi y gallwch chi gael fersiynau sain dros 2500 o lyfrau heb sôn am bapurau bro fel Y Lloffwr, Y Garthen a Chlonc - a hynny am ddim!!!

Bydd y noson yn gyfle i ddiolch i Gronfa Gymunedol Melinau Gwynt Brechfa am gyfraniad o £25,000 i goffrau'r gwasanaeth. Croeso i wrandawyr, cefnogwyr ac unrhyw un sydd am wybod mwy. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7yh.

Bydd y daith o ymweliadau yn mynd i'r llefydd canlynol - pob un i ddechrau am sith o'r gloch yr hwyr -

17eg Mawrth - Y Pafiliwn Pencader

18fed Mawrth – Neuadd Goffa Llanpumsaint

30ain Mawrth – Neuadd Brechfa

31ain Mawrth – Neuadd Felingwm Uchaf.

Caersalem, Llanpumsaint

'O, deuwch, ffyddloniaid...' Cwrdd carolau dwy-ieithog Rhagfyr 22ain am 2pm

Eleri Morris 253895

Gwasanathau Capel Nebo

Mawrth 8 Gwasanaeth aelodau 10.30

15 Mr Dafydd Evans 2.00

22 Mrs Elonwy Phillips 2.00

Ebrill 5 Mrs Beti Holmes 2.00

12 Gwasanaeth Aelodau 10.30

26 Parch Meirion Morris 2.00

May 10 Parch Gareth Soan 10.30

17 Mr Tudor Dylan Jones 2.00

June 14 Parch Roger Thomas 2.00

21 Parch Tom Dafis 2.00

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaeth Chwefror 2020

Chwefror 16 2020 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Dyma ni eto ar ddechrau blwyddyn newydd, a hoffem ni ddiolch yn fawr iawn yn gyntaf i bob un ohonoch sydd wedi ein cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd yn ein helpu ym mhob ffordd. Mae niferoedd ein plant wedi cynyddu yn fawr dros y flwyddyn ddiwethaf gan fod nifer o deuluoedd a phlant ifainc yn ein dalgylch. Cofiwch bod croeso mawr i chi ddod a'ch babanod a phlant bach i ein sesiynau 'Ti a Fi' sy'n cael eu cynnal bob bore Gwener (10yb – 12hd) yn ystod y tymor. Bydd mynychu'r sesiwn yn helpu pob agwedd o ddatblygiad eich plentyn, yn enwedig datblygiad cymdeithasol hollbwysig.

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Brics Codi Arian

A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archeb cysylltwch â Donna Thomas ar 07854072195.

Noson Welsh Whisperer – Mae'r Neuadd a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint yn trefnu Noson gyda'r Welsh Whisperer ar nos Wener 20fed o Fawrth. Bydd bwyd a lluniaeth ar gael. Pris tocynau yw £5 oedolyn, £2.50 plant uwchradd a plant cynradd am ddim. Am docyn cysylltwch gyda Donna Thomas ar 07854072195.

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Diflastod yw cyflwr presennol Cyngor Cymuned Llanpumsaint, oherwydd i Swyddfa Archwilio Cymru ymrafael ynddo. Nid yw'r Clerc wedi cyflwyno cyfrifon y Cyngor ers dwy flynedd gan nad ydyw yn gallu cwblhau y ffurflen archwilio, ac ers iddo gychwyn gwneud y swydd, mae ef wedi defnyddio cyfrifydd y fferm i wneud y gwaith yn ei le. Yn 2017, gwanethpwyd cwyn yn erbyn y Clerc am weithredu fel hyn oherwydd ym marn yr Archwiliwyr Allanol, Grant Thornton, yr oedd yn amhriodol fod cyfrifydd yn arwyddo fod ei waith ei hun yn gywir. Dehongliwyd hyn gan y Clerc fel gwaharddiad dros ddefnyddio'r cyfrifydd ac felly, nid ydyw wedi cyflwyno cyfrifon oddi ar hynny. Ym Mis Medi 2019, penderfynnodd Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu Adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn erbyn y Clerc a'r Cyngor, a golyga hyn y bydd rhaid i'r Clerc dalu dirwy o £1,000 a'r gymuned costau o £2,000 am y gwaith ychwanegol i gwblhau'r arolwg. Os fydd rhaid talu'r costau ychwanegol, cynyddar Praesept o £22 i £28, ac ni fydd y gymuned yn elwa o hyn mewn unrhyw ffordd oherwydd mai i goffrau Swyddfa Archwilio Cymru â yr arian. Y swm arferol a delir am yr arolwg flynyddol yw £180 - £200. Er i'r cyfrifon gael eu cyflwyno erbyn hyn gan fod cydymaith wedi eu cwblhau ar rhan y Clerc, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynnu fod rhaid i'r Clerc a'r Gymuned ysgwyddo'r costau ychwanegol.....diflastod y wir!

.....a rhywbeth arall i ystyried; derbyniwyd neges ar y cyfrifiadur oddi wrth un o drigolion Llanpumsaint oedd yn dweud y byddai yn gwerthfawrogi yn fawr pe bai'r pentref yn garedicach i blant! "Beth" meddech chi, "ond mae gyda ni bentref bach dymunol iawn; trafniadaeth yn arafu i 30 mya ac hyd yn oed 20 mya heibio i'r Ysgol a'r Cae Chwarae, ac ar y Cae Chwarae mae gyda ni yr offer arferol mae plant yn hoff o chwarae arnynt. Nid ydi hwn yn dystiolaeth digonol fod y pentref yn caru plant?" Wel odi, ond....â y neges yn ei flaen a dweud hyn; "Mae fy mhlant yn chwarae yn y pentre ac wrth chwilota yn y perthi ac ymyl y ffordd, mae nhw yn dod o hyd i fwy 'na dim ond planhigion, pryfed a thrychfilod, mi fyddant weithiau yn camu mewn i ddom ci a phan mae hynny'n digwydd, nid yw'r canlyniadau yn iachusol na ffafriol." Os ydi hwn yn fater neu sefyllfa y gallech chi ei wella, mi fyddai gweddill y pentref yn ei werthfawrogi yn fawr. Allwn ni gyd chwarae ein rhan i greu cymuned sydd yn gymuned i bawb; 'dyw hynny ddim yn ormod i ofyn ynte...?

Phil Jones 01267253512, clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

Gofal Traed

Clinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y a Fawrth 18, Dydd Fercher. Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Newyddion Digwyddiad Recriwtio Hospis Skanda Vale

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r diwrnod Recriwtio Gwirfoddolwyr yn mis Ionawr, roedd yn hyfryd i gwrdd a chi gyd ag yn edrych ymlaen i groesawu gwirfyddolwyr newydd i tim yr hospis.

Beth bynag fydd y swydd gwirfoddoli, rydym ni yn un tim yma, ag mae bob cyfraniad yn ychwanegu i profiad y cleifion sydd yma gyda ni.

Rydym ni wastad yn edrych allan am y bobl iawn i ymuno a'r tim, felly os na oeddech yn medru ymuno a ni nol ym mis Ionawr a bydde chi a diddordeb i wirfoddoli gyda ni, codwch y ffon a gofynwch am Aquila neu Nicky ar 01559 371222.

Yn y cyfamser, mae ein Fair Gwanwyn, Dydd Sadwrn Mawrth 21fed o 10yb – 4 yp yn Hospis Skanda Vale, Saron SA44 5DY. Croeso i bawb – gobeithio gweld chi yna!

Ronwydd Fronfras

Tasech chi gerllaw maes chwarae Llanpumsaint ryw brynhawn Sadwrn 'nol yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf, fe glywech lais cryf a threiddgar yn atsain drwy'r cwm. Byddech yn gwbod felly mae Ronwydd Williams, Fronfras oedd gol geidwad Gwili Rangers ar y dydd hwnnw. Fel mae Eifion George yn cofio byddai'n annog yr amddiffynwyr i gicio'r bel yn glir lan y cae i ddiogelwch - Awei!! Awei!!. Ond o'dd e'n ddyn Rygbi hefyd, a bu' where yn yr ail reng i Nantgaredig am gyfnod hir. Er chware peth criced i Hen Dy Gwyn ei brif lwyddiant fu ymuno gyda'r criw bach brwdfrydig i ffurfio Clwb Criced Bronwydd yn 1978. Daeth yn Gapten bum mlynedd yn ddiweddarach ac wedyn yn Llywydd yn 2014. Bob gaeaf gwelwyd ef o flaen y bwrdd darts yn taflu am ddegawdau i dafarn y Roc Cynwil. Yn ei waith datblygodd yn adeiladwr mawr ei barch am safon ei waith drwy'r ardal. Diddordeb arall oedd bridio ceffylau a gwelwyd ef gyda'r cynta' i gyrraedd y Sioe yn Llanelwedd ar Ddydd Mercher y Cobs Cymreig, unwaith i ddihuno'r dyn y fynedfa am chwech y bore. Wrth ymlwybro lan star i'w gwelyau am dri o'r gloch y bore mewn gwesty criced yng Ngwlad yr Haf torrodd Ronwydd a'r tenor mwyn Rhys Bach i mewn i emyn. Getho'n nhw holl benillion Sara cyn i ddrws agor a rhyw ymwelydd bach gwyno i'w deulu gael eu dihuno. Wrth dderbyn y gwyn fore drannoeth ymateb Maurice, Rheolwr y lle oedd ymddiheuro ond cadarnhau eu bod wedi canu mewn tiwn. Talodd y boi bach digwsg ac ymadael yn siglo ei ben.

Wedi rhoi'r gore i chwarae datblygodd yn gefnogwyr brwd a chyson i griced Bronwydd a rygbi Nantgaredig, prin yn colli gem gartre neu ble bynnag i ffwrdd. Bydde Ron hyd yn oed yn gwylio sesiynau ymarfer Nantgaredig ganol wythnos ac yn canlyn Bronwydd bellteroedd i Loegr. Mae dyfarnwyr y ddwy gêm yn hen gyfarwydd a throi clust byddar i glochdaa un- llygeidiog rhai cefnogwyr rhagfarnllyd. 'Roedd Ronwydd yn uchel ei gloch ond mi sylweddolodd sawl swyddog fod hi'n talu ffordd i wrando ar ei sylwadau, oherwydd yr oedd ganddo ddealltwriaeth fanwl o reolau'r gêm. Wedi byw bywyd cyhoeddus iawn angladd hollol breifat oedd hi yn ôl ei ddymuniad. Erbyn hyn mae 'na wacter trist ar ochr cae chwarae Nantgaredig ac mi deimlir hyn hefyd yn Cnwcyderi Bronwydd pan ddaw'r haf. *Arwyn 2020*

Domestic For sales, wants, free!

For sale

One Dog crate in perfect condition 34 x 28 inches £45 ONO.
One Dog Crate in perfect condition 34 x 22 inches £35 ONO.
Phone 01267253498

Free - Pair of leather Hush Puppies size 4 black short boots, with a soft sole, hardly worn – 01267253308

Want some fun at a party or event? Hire out Stocks at £5 a day, all money taken will go to the Village Voice – 01267 253498

For sale – Large Desk-top, 87”x30” x1” – dark green tooled leather top, would make a great table or grand desk, £30 Phone 01267 253308

For Sale – Black metal ceiling light, three arms, good condition, £10. 01267253308

Wanted – old anglepoise lamps, please contact Carolyn on 01267 253308

Have you got things/stuff you want to get rid of. Please email details to Carolyn on info@gwilimill.com, and they can go into this new page in the April Edition of Village Voice, no charge for domestic ads.

Nothing too small or too big, we even sold a car by advertising it in Village Voice some time ago.



Village Voice February 2020

Copy Date for next Edition 28th March 2020

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
 Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice

**Isafbris am alcohol:
2 Mawrth 2020**

**Minimum price
for alcohol: 2 March 2020**

Mae yfed llawer iawn o alcohol cryfder uchel yn niweidiol i'ch iechyd.
 Mae'r gyfraith yn newid yng Nghymru a byddwch yn sylwi ar gynnydd ym mhpris rhai diodydd.

Drinking high volumes of high strength alcohol is harmful to your health.
 The law is changing in Wales and you will notice an increase in the price of some drinks.

Os ydych chi'n poeni am faint o alcohol rydych chi'n ei yfed: ffoniwch neu tecstiwch y llinell gymorth am ddim i gael gwybodaeth, cyngor neu gwrsela.

If you worry about the amount of alcohol you drink: Call or text the free helpline for information, advice or counselling.

0808 808 2234
 neu tecstiwch DAN ar/or text DAN to 81066
www.dan247.org.uk



Ronwydd Williams

Information Poster from Welsh Government



Santa at the PTA Christmas Fair



Santa welcomes more visitors



Cans impaled on the hedgerows



Congregation at the Holocaust service



Volunteers cooking lunch Skanda Vale Hospice



Snowdrops pushing through the undergrowth



Tiny Cyclamen Coum flowers, such a delight

What's on in the Village – please put these dates in your diary

- Every Monday and Thursday from September 2nd Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall
- Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church
- Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.
- Every Wednesday 10.30 Table Tennis Memorial Hall
- Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643
- Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830
- Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall from 12th September
- Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr
- Every Friday 11.15 – 12.15 Mobile Post office Outside Bronwydd Hall
- Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall
- Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall
- Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall
- February 18 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
- February 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
- February 23 Sunday 11.00 Hard Hat Tour Botanic Garden
- February 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
- February 23 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
- February 24 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall
- February 25 Tuesday 11.00 Hard Hat Tour Botanic Garden
- February 26 Wednesday – Ash Wednesday Eucharist Llanpumsaint Church
- February 27 Thursday 6.00 Eco Lent Meal The Warren Carmarthen Tickets £20 Rev'd Gaynor
- February 29 Saturday 8.00 – 12 noon Waste Amnesty Newcastle Emlyn Mart Car Park
- February 29 Saturday 10.30 Annual General Meeting Allotment Association at Allotment Site
- March 7 10.30 – 1.30 Eco Open Church Llanpumsaint Church
- March 7 – 14 Village litter pick – details from Carolyn 01267253308
- March 8 Sunday 10.00 St David's Concert Cylch Meithrin Bronwydd, Bronwydd Hall
- March 9 Monday 7.30 AGM for LCIE Memorial Hall Llanpumsaint
- March 11 Wednesday Supper Club Railway Inn – 01267253643 to book
- March 14 Saturday 10 – 12 Monthly Market Llanllawddog , pm Forest Church taster session
- March 17 Tuesday 7.00 Talking Books The Pavilion Pencader
- March 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
- March 18 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall
- March 18 Wednesday 7.00 Talking Books Memorial Hall Llanpumsaint
- March 19 Thursday 7.00 Talking Books Llanllwni Community Hall
- March 20 Friday Welsh Whisperer Llanpumsaint Memorial Hall
- March 21 Saturday 10.00 – 4.00 Spring Fayre Skanda Vale Hospice
- March 22 Sunday 1.45 AGM Dowsers Bronwydd Hall
- March 23 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall
- March 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
- March 31 Tuesday Welfare Charity Meal Railway Inn
- April 8 Wednesday Supper Club Railway Inn – 01267253643 to book
- April 19 Sunday 10.30 Allotment Clean-up
- April 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
- April 22 Wednesday 7.00 Bingo Llanpumsaint Memorial Hall
- April 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

April 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

April 27 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall

April 27 Monday 8.00 AGM Welfare & Recreation Association Memorial Hall

June 7 Sunday Open Farm at Esgair and Hafod – more details in April Village Voice

June 19 Friday Car Treasure Hunt – more details April Edition

Llanpumsaint Memorial Hall – to book phone 07944793133

Open Farm Sunday

Open Farm Sunday is a national scheme in which participating farmers welcome the general public onto their farms. Two farms in Llanpumsaint are taking part on Sunday 7th June 2020, Esgair and Hafod. There will be more information to follow but meanwhile please pop the date in your diaries, both farms can be visited on the same day if you would like to.

Further information will be in the next Village Voice and do check out www.farmsunday.org and see what is going on here and across the UK

AGM LLANPUMSAINT COMMUNITY INFORMATION EXCHANGE (LCIE) –

7.30 9th March Memorial Hall – The committee that produces the Village Voice and looks after the village Website www.llanpumsaint.org.uk will hold the AGM on 9th March in the Memorial Hall. All are welcome to attend. We would appreciate help with producing and delivering Village Voice and assisting with keeping the website up to date. If you want more information, please contact Carolyn Smethurst 01267253308

Village Litter-Pick – week Saturday 7th March - Saturday 14th March

We have arranged another litter pick again this year – this time instead of just a day, you can choose the day you would like to help clear litter from the roads and verges in and around Llanpumsaint, any day from Saturday 7th March to Saturday 14th March.

